



Delfryn
Llwynpiod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON NOS LUN/MONDAY 14.12.2020
@ 7.30 yh/pm AR-LEIN/ONLINE TRWY ZOOM

COFNODION CYFARFOD RHGAFYR 2020
MINUTES OF DECEMBER 2020 MEETING

1. **CROESO / WELCOME**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i gyfarfod misol y Cyngor Tref gan gynnwys Mrs Fflur Lawlor a'i llongyfarch ar ei hapwyntiad fel Clerc newydd y Cyngor Tref.

The Chairman welcomed all members present, to the monthly meeting, including Mrs Fflur Lawlor & also congratulated her on her appointment as the new clerk to the Town Council.

PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Arwel Jones (Cadeirydd/Chair), Cyng/Cllr Catherine Hughes, Gwilym Jenkins, Rhian Jones, June Owens, Owain Pugh, Laura Sherman & Cyng/Cllr Rhydian Wilson

3. **YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES:** Cyng/Cllr Ann Jones, Evan Jones & Cyng/Cllr Alun Owen.

4. **MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS**

Diolchwyd i'r Clerc Mrs Heulwen Bulman am ei gwaith fel clerch dros y 16½ mlynedd diwethaf / *The Clerk, Mrs Heulwen Bulman was thanked for her services over the last 16½ years.*

5. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

Cyng Catherine J Hughes yn datgan diddordeb yn y pwnc Cynllunio / *Cllr Catherine J Hughes declaring an interest in the subject of Planning.*

6. **CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 16.11.2020**

Derbyniwyd y cofnodion ar gynnig Cyng Catherine Hughes ac eiliwyd gan Cyng Owain Pugh / *Minutes of previous meeting were accepted by Cllr Catherine Hughes and seconded by Cllr Owain Pugh.*

7. **MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES**

7.1 Dal angen i Cyng Catherine Hughes drafftio arwyddion am y baw cŵn a'i gylchredeg i'r Cynghorwyr i'w gymeradwyo cyn neu os yw'n hapus efo'r drafft, parhau i'w brintio (20 copi) efo Argraffwyr Lewis-Hughes.

Cllr Catherine Hughes needs to draft appropriate dog foul signage and circulated before the next meeting or if confident with the draft to print (20 copies) with Lewis-Hughes Printers.

7.2 7 tŷ wedi ymgeisio i'r gystadleuaeth o addurniadau gorau ar y tŷ / *7 properties had submitted their interest in the competition of best decorated house with Christmas lighting.*

7.3 Golau stryd newydd wedi'u leoli gyferbyn i'r dafarn Sunnyhill / *New street lamp had been erected opposite Sunnyhill Free house.*

8. **CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS**

8.1 HMRC NIC/TAX Mis/Month 8 £55.40

8.2 Cyflog y Gweithiwr Strydlun/Street Scene worker wages £202.48

8.3 Cyflog y Clerc/Clerk Salary £259.00

CADEIRYDD / CHAIRPERSON

- 8.4 Gareth Evans £240 (6 toriad yn unig)
8.5 Hysbyseb Cambrian News £122.40

Cynnig/*Proposed*: Cyng/Cllr Gwilym Jenkins
Eilio/*Seconder*: Cyng/Cllr Rhian Jones

9. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / REPORT FROM THE STREET SCENE WORKER**

Soniwyd bod tu allan i'r Neuadd Goffa yn edrych lawer glanach.
It was mentioned that outside the Memorial Hall looks a lot cleaner.

10. **CEISIADAU CYNLLUNIO/PLANNING APPLICATIONS**

Dim i'w gofnodi/*Nothing to report.*

11. **CANIATAD CYNLLUNIO/PLANNING PERMISSIONS**

Dim i'w gofnodi/*Nothing to report.*

12. **CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn hysbysebu pryd mae casgliadau sbwriel dros y Nadolig.
Ceredigion County Council have been announcing their Christmas rubbish collection dates.

13. **UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES**

Dim i'w gofnodi/*Nothing to report.*

14. **PROSIECT CYLCH CARON PROJECT**

Y Prosiect yma wedi'u ohirio am y tro / *This project has been placed on hold for the time being.*

15. **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU**

Pwyllgor yr Eisteddfod yn bwriadu ail-ddechrau'r trafodaethau a'r cyfarfodydd ym mis Ionawr 2021.

Committee intending to re-convene to discuss in January 2021.

16. **PROSIECT BWRDD DIGIDOL / DIGIBOARD PROJECT**

Plynth yn ei le, bydd y bwrdd digidol yn cael ei leoli yn y flwyddyn newydd.
Plynth has been erected, Digi board will be assembled in the new year.

17. **SWYDD Y CLERC / CLERK'S POST**

Yn dilyn bron i 17 mlynedd o wasanaeth, soniwyd bod y clerc presennol yn gorffen gweithio i'r Cyngor Tref ar 31 Rhagfyr, peiriannydd wedi cynghori i'r clerc newydd archebu cyfrifiadur newydd gan fod yr un presennol yn rhy hen i'w uwchraddio. Cytunwyd i brynu gliniadur newydd ar gynnig Cyng Gwilym Jenkins ac eiliwyd gan Cyng Rhian Jones.

Gofynnir i'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, Clerc presennol a Mrs Fflur Lawlor i sefyll ar zoom ar ddiwedd y cyfarfod i drafod gwaith y clerc.

Following nearly 17 years of service, it was mentioned that the existing clerk would finish her employment on 31st December, computer engineer advised the Town Council to purchase a new pc due to the existing pc not being up to date enough to be upgraded. It was agreed to purchase a new laptop for the new clerk on the proposal of Cllr Gwilym Jenkins and seconded by Cllr Rhian Jones.

The Chairman, Vice-chairman, existing clerk and the new clerk to remain on zoom at the end of the council meeting to discuss the work to be done by the new clerk.

18. **GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE**

18.1 Llythyr o ddiolch wedi'u dderbyn oddiwrth J W G Preece, Hwlffordd yn canmol cyflwr toiledau'r maes parcio.

A letter had been received from J W G Preece, Haverfordwet complimenting the condition of the car park toilet facilities.

CADEIRYDD / CHAIRPERSON

- 18.2 Carden Nadolig wedi'u dderbyn oddi wrth Penter Pimlimon.
Christmas card received from Penter Pimlimon.
- 18.3 Cais am gymorth ariannol wedi'u dderbyn oddi wrth Beiciau Gwaed Cymru, Aberystwyth, cytunwyd i'w drafod efo ceisiadau 2021.
Request for financial assistance had been received from Blood Bikes Wales, Aberystwyth, it was agreed to file and discuss along with the other applications in 2021.

19. **UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS**

- 19.1 Fan wen wedi parcio ers misoedd yn Penrodyn a ddim wedi symud, teiar wedi mynd yn fflat arni a mwsogl wedi gordyfu oddi tan y cerbyd. Gofynnir i'r clerc drosglwyddo rhif y cerbyd i'r heddlu gan ymweld â'r perchennog.
White van parked for months on the slip road Penrodyn, flat tyre and moss overgrowing under the van. Clerk was asked to forward the details to the police.
- 19.2 Derbyniwyd ymateb oddi wrth Mandy, BT ynglŷn â mabwysiadu ciosg Penffordd, yn sôn gan nad oedd y ciosg ar ddaear breifat ond ar ddaear gyhoeddus, ni all BT gynnig y ciosg i perchennog, Penffordd, ond ei gynnig i'r Cyngor Tref. Gall y Cyngor Tref ei drosglwyddo i'r perchennog yn dilyn cwblhau'r contract ond i ddechrau dim ond contract rhwng y Cyngor Tref a BT oedd yn bosibl. Cytunwyd i'r clerc gysylltu â BT i ddrafftio'r contract lan rhwng BT a'r Cyngor Tref ac i'r Clerc newydd ddilyn hyn i fyny drwy gynnig y ciosg i'r perchennog yn y dyfodol wedi derbyn barn cyfreithiwr.
E-mail received from Mandy, BT regarding the adoption of Penffordd kiosk, she mentioned that as the kiosk was located on public highways they were unable to sell the kiosk to the owner of Penffordd, but would have to offer it to the Town Council, who could then in turn sell/give the kiosk to the owner of Penffordd. Clerk was asked to contact BT requesting they draw up the necessary contract between BT and the Town Council, who would then seek the advice of a solicitor regarding transferring the kiosk.
- 19.3 Trafodwyd trefniadau taith Siôn Corn oddi amgylch y dre yn beirniadu'r gystadleuaeth o'r tŷ sydd wedi'u haddurno orau o fewn dalgylch Tregaron (arwyddion Tregaron). Cytunwyd i ddechrau'r daith oddi amgylch y dref ar nos Wener 18 Rhagfyr am 6.00 o'r gloch gan gwrdd i adeiladu'r cyfan ar drelar nos Fercher am 7.00 o'r gloch.
Soniwyd bod y goeden Nadolig ar y sgwâr fawr yn siomedig eleni eto. Mrs Fflur Lawlor i gofio newid y trefniadau ar gyfer 'dolig 2021. Diolchwyd i'r cynghorwyr a fu'n bresennol noson cynnu'r golau ar y goeden.
Discussion took place to the arrangements of Father Christmas' tour around the town to judge the best decorated house (within the town signs). It was agreed to start at 6pm on Friday 18th December and to meet at 7.30 pm on the Wednesday previous to build and decorate the trailer.
Councillors were not pleased with the state of the Christmas tree on the square this year again. Mrs Lawlor to make alternate arrangements for 2021. The councillors that were present on the lighting of the tree were thanked for their presence.
- 19.4 Gwaith ar y parc wedi'u gwplu heblaw am roi'r 'wet pour' oddi amgylch y sleid newydd.
Work completed on the children's park apart from laying the wet pour around the new slide.
- 19.5 Angen trefnu cyflwyniad i'r Clerc yn y Gwanwyn pan fyddai sefyllfa'r Covid-19 yn well, dymunwyd yn dda iddi a diolchwyd unwaith eto iddi am ei chyfraniad i'r Cyngor Tref.
A presentation would be held in the Spring, for the outgoing Clerk, pending Covid-19 situation, Councillors wished her well and thanked her again for her contribution to the Town Council.

TERFYNWYD Y PWYLLGOR / MEETING WAS CLOSED

CADEIRYDD / CHAIRPERSON